O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 273 (Cy. 43)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot i Gylchfan Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*3 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*13 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot i Gylchfan Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 13 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;